

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a
Chysylltiadau Rhyngwladol

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Diogelwch Ar-lein

Rhagfyr 2021



1. Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar 30 Mawrth 2022 o dan Reol Sefydlog 29.2.
2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 21 Gorffennaf 2022. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwnnw ar 24 Mehefin 2022.
3. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("Memorandwm Rhif Dau") ar 28 Medi 2022. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif Dau at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 8 Rhagfyr 2022.

2. Ein dull gweithredu

4. Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Rhif Dau ar y Bil yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd 2022. O ystyried natur y darpariaethau y ceisir caniatâd ar eu cyfer, ni cheisiodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â Memorandwm Rhif Dau.

3. Bil Diogelwch Ar-lein y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

5. Cyflwynwyd Bil Diogelwch Ar-lein ("y Bil") Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022, ac fe'i noddur gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
6. Mae teitl hir y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn nodi ei ddiben:

"Make provision for and in connection with the regulation by OFCOM of certain internet services; for and in connection with communications offences; and for connected purposes."
7. Trafodwyd y Bil yn ystod yr ail ddarlleniad ar 19 Ebrill 2022; cafodd ei gario drosodd i Sesiwn 2022-23 a'i ailgyflwyno ar 11 Mai 2022. Dechreuodd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Gorffennaf 2022. Nid yw dyddiadau pellach ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin

wedi'u cyhoeddi eto. Anfonwyd y Bil at Bwyllgor Bil Cyhoeddus, a fydd yn craffu ar y Bil cyn cyflwyno adroddiad i Dŷ'r Cyffredin. Cafwyd oedi o ran trafodion ar y Bil ac ar ddyddiad yr adroddiad hwn, nid yw'r amserlen ar gyfer y Bil wedi'i diweddaru.

8. Yn gryno, mae'r Bil yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd mewn perthynas â'r canlynol:

- darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, a lanlwythir neu a rennir gan ddefnyddwyr eraill, h.y. cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr");
- darparwyr chwilotwyr sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data lluosog ("gwasanaethau chwilio"); a
- darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd y mae cynnwys pornograffig yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos arnynt.

9. O dan y drefn reoleiddio honno, rhaid i rai darparwyr gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr a gwasanaethau chwilio sydd â chysylltiadau â'r DU asesu'r risg o niwed a chymryd camau i liniaru a rheoli risgiau, gan gynnwys rhoi ar waith systemau, prosesau a gweithdrefn gwyno dryloyw a hawdd ei defnyddio.

10. Mae'r Bil hefyd yn creu trosedd "seiberfflachio" newydd ac mae tair trosedd cyfathrebiadau newydd yn cymryd lle troseddau cyfathrebu presennol: trosedd cyfathrebiadau niweidiol, trosedd ffug gyfathrebiadau, a throsedd cyfathrebiadau bygythiol.

4. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

11. O dan Reol Sefydlog 29, rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol os yw Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

- a. at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
- b. sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

12. Mae Memorandwm Rhif Dau yn nodi bod darpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer wedi'u nodi yng nghymalau 151 i 154 a 156 o'r Bil.

- 13.** Mae cymal 151 yn creu trosedd ar gyfer anfon cyfathrebiadau niweidiol. Mae unrhyw berson sydd, gyda'r bwriadu o achosi gofid difrifol o leiaf a heb esgus rhesymol, yn anfon neges (neu'n achosi iddi gael ei hanfon) sy'n cyflwyno risg real a sylweddol o achosi gofid difrifol o leiaf i'r rhai sy'n debygol o ddod ar ei draws, yn euog o'r drosedd.
- 14.** Mae cymal 152 yn creu trosedd ar gyfer anfon cyfathrebiadau ffug. Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn anfon neges yn cyfleu gwybodaeth y mae'r person yn gwybod ei fod yn ffug, ac wrth anfon y neges yn bwriadu achosi niwed seicolegol neu gorfforol sy'n fwy na dibwys i'r rhai sy'n debygol o ddod ar draws y neges, yn euog o drosedd.
- 15.** Mae cymal 152 yn creu trosedd ar gyfer anfon cyfathrebiadau bygythiol. Mae person sy'n anfon neges yn cyfleu bygythiad¹ o anaf difrifol, treisio, ymosod trwy dreiddio, neu golled ariannol ddifrifol, gyda'r bwriad y bydd y rhai sy'n dod ar draws y neges yn ofni y bydd y bygythiad yn cael ei gyflawni (neu'n ddi-hid o ran y ffaith honno), yn euog o drosedd.
- 16.** Mae cymalau 154 a 156 yn ategol i gymalau 151 i 153, sy'n ymdrin â materion dehongli ac atebolrwydd swyddogion corfforaethol yn y drefn honno.
- 17.** Er bod teitl hir y Ddeddf yn nodi ei bod yn gwneud 'darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â rheoleiddio rhai gwasanaethau rhyngrwyd gan OFCOM; ar gyfer ac mewn cysylltiad â throseddau cyfathrebu; ac at ddibenion cysylltiedig', mae'r Nodyn Esboniadol yn ei gwneud yn glir nad yw'r troseddau wedi'u cyfyngu i'r rhyngrwyd neu'r amgylchedd ar-lein a bod diben y troseddau yn ehangach na gwasanaethau rhyngrwyd. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mai diben cymalau 151 i 153 yw amddiffyn pobl rhag niwed. Mae cymalau 154 a 156 yn ategol i'r troseddau o dan gymalau 151 i 153. I'r graddau y mae'r cymalau'n creu troseddau nad ydynt yn gyfyngedig i gyfathrebiadau electronig, neu sy'n ategol iddynt, mae'r cymalau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 18.** Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor y dylid ceisio cydsyniad hefyd ar gyfer cymal 159 ac Atodlen 14 (mewn perthynas â'r diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 151, 152 a 153). Mae'r darpariaethau hynny'n ategol i gymalau 151, 152 a 153, yn yr un modd ag y mae cymalau 154 a 156 yn ategol.

¹ Mae bygythiadau i ladd eisoes wedi'u troseddoli o dan adran 16 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861.

5. Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

19. Mae'r rhesymau a roddir gan y Gweinidog dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil wedi'u nodi ym mharagraffau 31 i 34 o Femorandwm Rhif Dau. Yn y paragraffau hynny, nodir fel a ganlyn:

"31.Mae'r darpariaethau o fewn y Bil, sy'n gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd mewn perthynas â diogelwch ar-lein ac yn rhoi pwerau a gosod dyletswyddau ar OFCOM, yn ymwneud â'r mater a gadwyd yn ôl o "wasanaethau rhyngrwyd".

32.Mae diogelwch a lles pobl yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu ac yn ddyletswydd sy'n syrthio i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i sicrhau rheoleiddio cyson ar ddarparwyr y rhyngrwyd a fydd yn diogelu pobl Cymru."

6. Trafodaeth y Pwyllgor

20. Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Rhif Dau yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd 2022.

21. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bod angen cydsyniad.

22. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ceisio cydsyniad hefyd ar gyfer cymal 159 ac Atodlen 14 (mewn perthynas â'r diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 151, 152 a 153), sy'n atodol i gymalau 151, 152 a 153. Mae'r dull hwn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd mewn perthynas â chymalau 154 a 156.